

Trosolwg

Dull gwreiddiol o iachau yw Reiki, wedi'i ddatblygu gan Mikao Usui yn Japan tua dechrau'r 20fed ganrif. Mae Reiki yn egni iachau naturiol sy'n gweithio ar bob lefel, nid y corfforol yn unig, a deallir ei fod yn hyrwyddo gallu hunan-iachau adfywiol y corff. Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu Reiki i gleientiaid. Mae Reiki yn anfewnwithiol ac fe'i defnyddir yn gyfannol i adfer cydbwysedd yn y meddwl, y corff a'r ysbryd. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- P1. sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y cleient
- P2. sicrhau bod unrhyw offer a deunyddiau yn barod i'w defnyddio ac yn bodloni codau ymarfer proffesiynol, gofynion cyfreithiol a sefydliadol
- P3. paratoi eich hun yn briodol i ddarparu Reiki
- P4. gosod y cleient ar gyfer Reiki effeithiol ac i fod mor gyfforddus â phosibl
- P5. darparu Reiki i gleientiaid yn ddiogel ac yn gywir
- P6. gwneud addasiadau priodol i ddiwallu unrhyw anghenion newidiol
- P7. delio'n effeithiol ag ymateb y cleient i Reiki
- P8. cadw llygad ar les y cleient drwyddi draw a rhoi sicrwydd lle bo angen
- P9. rhoi cyngor clir a chywir mewn perthynas ag unrhyw ôl-ofal a hunanofal perthnasol
- P10. gwerthuso canlyniadau ac effeithiolrwydd y Reiki i lywio cynlluniau a chymau gweithredu yn y dyfodol
- P11. cwblhau a chadw cofnodion yn unol â chanllawiau proffesiynol a chyfreithiol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1. y cysyniad iechyd a lles corfforol, emosiynol, meddyliol ac ysbrydol sy'n gyson â'r ymarfer, yr egwyddorion a'r theori sy'n sail i Reiki

K2. hanes a datblygiad y dulliau Reiki a arferir

K3. y rhesymau dros gael cyweiriad/cychwyniad person i berson ar gyfer Reiki, cyn ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol

K4. yr egwyddorion sy'n sail i systemau Reiki (y cyd-destun) ac egni Reiki (y llif)

K5. pwysigrwydd yr ymarferydd yn defnyddio hunan-driniaeth

K6. sut i gymhwyso Reiki yn ôl dull, systemau a dysgeidiaeth

K7. sut i ddewis y 'ffordd' fwyaf priodol i ddiwallu anghenion y cleient

K8. llinach yr athro i Mikao Usui

K9. yr ystod o dderbynyddion posibl ar gyfer dull Reiki (e.e. anifeiliaid/bodau dynol/planhigion) ac unrhyw gyfyngiadau i ymarfer (e.e. milfeddygol/cyfreithiol)

K10. perthynas Reiki ag ymarferion gofal iechyd eraill

K11. nad oes unrhyw wrtharwyddion hysbys i Reiki pan gaiff ei ddefnyddio ar ei ben ei hun

K12. y mathau o ymarfer Reiki:

K12.1. dwylo ar y corff

K12.2. dwylo ger y corff

K12.3. o bell

K13. pwysigrwydd esbonio Reiki i'r cleient

K14. y ffactorau i'w harchwilio gyda'r cleient gan gynnwys:

K14.1. hanes iechyd, gweithrediad effeithiol a lles corfforol, emosiynol, meddyliol ac ysbrydol y cleient gan gynnwys unrhyw gyflyrau a thriniaethau penodol

K14.2. sut mae'r cleient yn canfod bod Reiki yn cyd-fynd â'i nodau personol

K15. y rôl y gall y cleient (ac eraill) ei chymryd, ac efallai y bydd angen ei chymryd, er mwyn i'r Reiki fod yn fuddiol a sut i'w hesbonio a chytuno arni gyda'r cleient (ac unrhyw gydymaith)

K16. sut i gefnogi'r cleient i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth

K17. pwysigrwydd cytuno ar leoliad ac amseriad Reiki gyda'r cleient, a'r ffactorau a allai ymyrryd a newid cynlluniau

K18. sut i gydnabod cyflyrau y gall Reiki fod yn anghyflawn ynddo'i hun ar eu cyfer ac y dylai'r cleient ofyn am gyngor o ffynonellau eraill ar eu cyfer

K19. yr amgylchiadau pan all yr Ymarferydd ddewis peidio â derbyn cleient:

K19.1. nid yw'r cleient am gael Reiki

K19.2. nid yw'r Ymarferydd yn dymuno darparu Reiki

K19.3. mae gan y cleient angen meddygol brys

K20. yr amgylchiadau pan fydd angen dirnadaeth wrth dderbyn cleient:

K20.1. nid oes gan yr Ymarferydd y profiad neu'r arbenigedd angenrheidiol

K20.2. lle mae atgyfeirio meddygol yn hanfodol

K21. sut i deilwra Reiki yn briodol ar gyfer anghenion pob unigolyn

K22. sut i fonitro a gwerthuso newidiadau yn y cleient a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ymarfer yn y dyfodol

K23. pwysigrwydd gwrando'n weithredol wrth ddarparu a gwerthuso Reiki gyda'r cleient

K24. sut i werthuso effeithiolrwydd ac addasrwydd Reiki gyda'r cleient ac a ddylid parhau â'r driniaeth

K25. canlyniadau posibl Reiki:

K25.1. ymatebion iachâd

K25.2. newidiadau yn lles corfforol, emosiynol, meddyliol ac ysbrydol y cleient

K25.3. cynnal a chadw a sefydlogrwydd

K25.4. yr angen posibl i ailasesu meddyginiaeth gan ragnodwr

K26. y cyngor y gellir ei roi mewn perthynas â:

K26.1. gorffwys ac ymlacio

K26.2 ail-hydradu

K26.3. defnyddio technegau hunangymorth o bosibl

K26.4. atgyfeirio ymlaen fel y bo'n berthnasol

K26.5. symptomau'n parhau/dwysáu/lleihau efallai yn y tymor byr

K27. pwysigrwydd peidio â dibynnu ar ganlyniadau penodol

K28. y strwythur ysgerbydol a swyddogaethau/lleoliad y prif organau

K29. amodau corfforol i nodi priodoldeb Reiki

K30. amodau corfforol yn ddigon manwl i gyfathrebu'n effeithiol â'r cleient a/neu randdeiliad arall

K31. symptomau baner goch (h.y. cyflyrau sy'n gofyn am gymorth meddygol ar unwaith a/neu glefydau hysbysadwy)

Cysylltiadau Allanol

Mae'r safon hon yn cysylltu â'r dimensiwn canlynol o fewn Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau y GIG (Hydref 2004):

Dimensiwn: HWB7 Ymyriadau a thriniaethau

Swyddogaethau Perthnasol

Egwyddorion Arfer Da

CNH1 Archwilio a chanfod anghenion y cleient o ran gofal iechyd cyflenwol a naturiol
CNH2 Datblygu a chytuno ar gynlluniau ar gyfer gofal iechyd cyflenwol a naturiol gyda chleientiaid

Datblygwyd gan Skills for Health

Fersiwn rhif 2

Dyddiad cymeradwyo 22 Awst 2023

Dyddiad Adolygu Dangosol 31 Awst 2026

Dilysrwydd Ar hyn o bryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Skills for Health

RCU gwreiddiol SFHCNH12

Galwedigaethau perthnasol Therapyddion

Cyfres/Set Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol

Geiriau Allweddol Cyflenwol, naturiol, lles, llesiant
